# PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan a S.T. Wiliam.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton, W.A. Hennessy a M.R. Wilkinson.

COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

ADOLYGIAD O DDATGANIAD O EGWYDDORION DEDDF HAPCHWARAE 2005 – 2025–2028 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Tîm Trwyddedu, a ddywedodd fod Adran 349 o Ddeddf Hapchwarae 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi Datganiad o Egwyddorion yn llywodraethu ei bolisi trwyddedu am gyfnod o dair blynedd. Byddai'r Datganiad presennol yn dod i ben ddiwedd 2025.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r broses adolygu ac adnewyddu ar gyfer 2025-2028 ac adroddiad yn ôl ar yr ymgynghoriad statudol. Roedd yn manylu ar y broses

ragnodedig i gyhoeddi'r Datganiad o Egwyddorion nesaf gan gynnwys atgyfeiriadau i'r Cabinet, ac yn olaf i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

Dywedodd y Swyddog hefyd nad oedd unrhyw newidiadau i'r polisi yn cael eu cynnig yn yr adolygiad hwn am y cyfnod tair blynedd, gyda'r holl ddiwygiadau yn y rhagair neu'r elfennau gweinyddol fel y'u hamlygwyd mewn coch, yn Atodiad A i'r adroddiad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Awst a 5 Medi, 2024 ac ni chafwyd unrhyw ymatebion.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu arfaethedig ar gyfer 2025-2028, fel y manylwyd arno yn Atodiad A i'r adroddiad, a chyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet ac yna ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel Awdurdod Trwyddedu.